OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2708 (Cy. 292)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Ffordd Ymuno tua'r Gogledd wrth Gyffordd 3, Ffordd Osgoi Wrecsam, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Tachwedd 2011* |
| *Yn dod i rym* | *21 Tachwedd 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Ffordd Ymuno tua'r Gogledd wrth Gyffordd 3, Ffordd Osgoi Wrecsam, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” *(“exempted vehicle”)* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 21 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” *(“the length of the trunk road”)* yw'r darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd cefnffordd yr A483 wrth Gyffordd 3 ar Ffordd Osgoi Wrecsam.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 10 Tachwedd 2011

**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.